**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**11 Mai 2015**

**RHEOLI RISGIAU STRATEGOL**

**Adroddiad gan Shân Morris, Rheolwraig Cynllunio Corfforaethol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i drefniadau newydd ar gyfer goruchwylio a rheoli risgiau strategol yr Awdurdod; a chyflwyno diffiniad o risg strategol i'w fabwysiadu gan yr Awdurdod.

## Cefndir

2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 16 Mawrth 2015 cafodd yr aelodau wybod am gynlluniau i gyflwyno polisi newydd ar gyfer rheoli risgiau strategol a chofrestr risgiau strategol.

3 Roedd yr angen i'r Awdurdod ddatblygu a gwella ei drefniadau presennol ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol wedi cael ei nodi eisoes yn ystod adolygiad gan wasanaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Conwy o drefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod.

4 Mae natur y gofrestr risgiau strategol yn golygu nad priodol nac ymarferol fyddai cyflwyno ei holl gynnwys mewn cyfarfodydd agored o'r Awdurdod, felly mae angen dull gwahanol o sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwybod am ei risgiau strategol.

## Gwybodaeth

5 Dyma'r diffiniad o risg strategol sy'n cael ei gynnig i'r Awdurdod ei fabwysiadu: "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

6 Byddai'r trefniadau arfaethedig ar gyfer cynnal lefelau priodol o drosolwg a rheolaeth o risgiau strategol yr Awdurdod yn cynnwys y canlynol:

a) Byddai'r swyddogion yn sicrhau bod y polisi rheoli risgiau strategol yn cael ei weithredu'n effeithiol. Byddai hyn yn sicrhau bod y risgiau strategol yn cael eu hadnabod a'u rheoli yn unol â lefelau blaenoriaeth risgiau diffiniedig.

b) Byddai'r swyddogion yn sicrhau bod y risgiau strategol yn cael eu hystyried yn briodol fel rhan o'r gwaith gwneud penderfyniadau a chynllunio corfforaethol, a bod adroddiadau rheoli risgiau strategol yn cael eu cyflwyno i'r Panel Gweithredol.

c) Byddai'r Awdurdod, drwy ei Banel Gweithredol, yn gyfrifol am sicrhau bod yna bolisi effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risgiau, ei fod yn deall natur y risgiau strategol y mae'n hwynebu a'i fod yn ymwybodol o'r modd y mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli.

7 I'r diben hwn cynigir y bydd y canlynol yn digwydd o leiaf unwaith y flwyddyn:

a) Y Panel Gweithredol yn ystyried adroddiad ar risg strategol. Byddai'r adroddiad yn crynhoi agweddau ar y risgiau allweddol, faint o risgiau oedd yna ar ba lefel blaenoriaeth, a faint ohonynt a gafodd eu lleihau i lefel ddigon isel er mwyn eu tynnu oddi ar y gofrestr.

b) Byddai Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gweld manylion llawn y gofrestr risgiau strategol gyda'r swyddogion er mwyn eu bodloni eu hunain ynghylch ei gynnwys a'r camau a gymerir i reoli'r risgiau hynny.

8 Byddai sicrwydd ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy adroddiadau archwilio mewnol ynglŷn â pha mor ddigonol ac effeithiol yw amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod, gan gynnwys rheoli risgiau a'r trefniadau llywodraethu corfforaethol.

**Argymhelliad**

9 Bod yr aelodau'n cytuno: a) i fabwysiadu'r diffiniad o risg strategol, a hefyd b) ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer cael trosolwg a rheolaeth o risgiau strategol sy'n wynebu'r Awdurdod.